



AWTTC

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

In Focus

Haf 2025 - Rhifyn 30

Cylchlythyr yr Haf AWTTC

Diweddariad chwarterol ar y newyddion, cyhoeddiadau ac adnoddau diweddaraf.

Yn y rhifyn hwn

Ebrill - Mehefin 2025 newyddion gan:

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd, asesiadau meddyginiaethau Cymru'n Un a sicrhau ansawdd allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
Datblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a dadansoddi ac adrodd ar ddata defnydd meddyginiaethau.
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
Darparu cyngor 24 awr y dydd ar wenwynau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau.



AWTTC

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Rhaglen Fuddsoddi VPAG (Cymru): Cyfle Mawr i GIG Cymru

Nod VPAG yw galluogi cleifion i gael mynediad at y triniaethau arloesol diweddaraf, cryfhau safle'r DU mewn arloesedd gofal iechyd byd-eang ac ymchwil glinigol, ac yn y pen draw sicrhau canlyniadau iechyd gwell ar draws y boblogaeth.

[Darllenwch ragor yma](#)



AWTTC

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Mae Dysgu Dros Ginio yn parhau i dyfu

Yn ogystal â chwmpasu amrywiaeth o ddiweddariadau therapiwteg, roedd y sesiwn Dysgu dros Ginio 1 awr ddiweddaraf a gynhaliwyd ar 7 Mai yn trafod gwenwyno propranolol ac yn edrych ar y Rhaglen Gwella Ansawdd genedlaethol ar gyfer clefyd cronig yr arenau. Gwyliwyd y sesiwn yn fyw gan 162 o bobl, sef y nifer uchaf erioed.

Gwyliwch recordiadau o sesiynau blaenorol a threfnwch eich lle ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol [yma](#).



Ymgynghoriad ar 'Lyfr fformiwlâu archebion wedi'u llofnodi Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru' bellach wedi cau

Nod y ddogfen hon yw cytuno ar restr gymeradwy o barotoadau llygaid (meddyginiaethau a dyfeisiau) i'w cynnwys ar lyfr fformiwlâu archebion wedi'u llofnodi WGOS.

Amcangyfrif o'r dyddiad cyhoeddi: Medi - Tachwedd 2025



Canllawiau ar 'Geisiadau brys am feddyginiaeth ailadroddus' wedi'u cyhoeddi

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi canllawiau i bresgripsiynwyr mewn gwasanaethau gofal sylfaenol GIG 111 a'r Tu Allan i Oriau wrth asesu'r angen clinigol a brys ceisiadau gan gleifion am feddyginiaeth ailadroddus.

[Darllenwch ragor yma](#)



Mân ddiweddariadau i 'Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol' wedi'u cyhoeddi

Gwnaed mân ddiweddariadau i'r monograff ar UTI Isaf mewn oedolion, 'Lyngyr Edau' a 'Rhinosinwsitis Acíwt'.

[Darllenwch ragor yma](#)



Cyhoeddedig 'Polisi ar gyfer caffael, rheoli, gweinyddu a gwaredu nwyon meddygol yn gynaliadwy i gyflawni datgarboneiddio'

Mae'r ddogfen bolisi hon yn targedu'r broses o gaffael a rheoli nwyon meddygol, ac mae'n canolbwyntio ar ocsid nitrus (N₂O) a 50% ocsid nitrus a 50% cymysgedd ocsigen, sef Entonox®, fel y'i gelwir yn gyffredin o dan yr enw masnach.

[Darllenwch ragor yma](#)



Monograff rhinitis alergaidd wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd yn fformiwlari 'Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin Cymru Gyfan'

Mae monograff wedi'i ddiweddarau ar gyfer 'Rhinitis alergaidd' wedi'i gyhoeddi gyda chynllun wedi'i ddiweddarau, gwybodaeth wedi'i diweddarau drwyddo draw ac yn ychwanegu fexofenadine fel triniaeth. Mae diweddariadau bach ychwanegol hefyd wedi'u gwneud i'r monograffau ar gyfer 'Llid yr amrannau (bacteriol)' a 'Gwddf dolurus'.

[Darllenwch ragor yma](#)



AWTTC

All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru

Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) AWMSG ar Rookwood Sounds

Gwnaeth yr Uwch Wyddonydd Dr Clare Elliott, arweinydd PAPIG, a'r Uwch Fferyllydd Sabrina Rind ddychwelyd i stiwdio Rookwood Sounds yn ddiweddar i ymuno â'r cyflwynydd Wesley Pritchard. Gyda'i gilydd, fe wnaethant amlygu'r gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud gan PAPIG wrth gynrychioli lleisiau cleifion a'r cyhoedd. Roedd cyfarfod PAPIG mis Mehefin yn llwyddiant ysgubol, gyda phresenoldeb cryf a thrafodaeth ystyrlon drwyddi draw.

Cofiwch y dyddiad!

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar 12 Medi, ac fel bob amser, mae croeso i bawb. Edrychwn ymlaen at sgwrs ddiddorol arall a gobeithiwn y gallwch ymuno â ni.

[Gwyliwch y recordiadau yma](#)



AWTTC

All Wales Therapeutics & Toxicology
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg

Staff AWTTC yn cystadlu yn Ras Gyfnewid Cosmeston

Gwnaeth staff o AWTTC gymryd rhan unwaith eto yn Ras Gyfnewid flynyddol Cosmeston, a gynhaliwyd yn ardal brydferth Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston. Gan ffurfio tri tîm o dri rhedwr yr un, gwnaethant gyflawni'r rasys cyfnewid 5 km gyda brwdfrydedd ac ysbryd da.

Mae'r digwyddiad yn parhau i fod yn brofiad hwyliog a chofiadwy i bawb sy'n cymryd rhan, gan gyfuno ffitrwydd, gwaith tîm ac ysbryd cymunedol mewn lleoliad awyr agored hardd. Da iawn i bawb a gymerodd ran—ac edrychwn ymlaen at y ras y flwyddyn nesaf!





AWTTC yn cael cydnabyddiaeth yng Ngwobrau Gwarcheidwaid Gwrthfotig 2025

Gwnaeth Gwobrau Gwarcheidwaid Gwrthfotig 2025, rhan o ymgyrch barhaus Gwarcheidwaid Gwrthfotig dan arweiniad Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, ddatlu cyfraniadau rhagorol o bob cwr o'r DU a ledled y byd wrth fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR).

Darparodd y digwyddiad blatfform i rannu dysgu ac arddangos ymdrechion arloesol gyda'r nod o leihau defnydd diangen o wrthfotigau.

Roedd AWTTC yn falch o gael eu cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer dau brosiect, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i wella stiwardiaeth gwrthfotigau yng Nghymru.

[Darllenwch ragor yma](#)



PAMS

Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

Cyngor meddyginiaethau newydd ar gyfer GIG Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyngor gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar gyfer chwech meddyginiaeth.

[Mai](#)

[Mehefin](#)



PAMS

Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

Lansio is-bwyllgor AWMSG newydd – CASWG

Mae [Grŵp Cynllun Trefniadau Masnachol Cymru \(CASWG\)](#) newydd wedi'i sefydlu i gefnogi gweithredu meddyginiaethau a argymhellir gan AWMSG a NICE sy'n gysylltiedig â threfniant masnachol.

[Darllenwch ragor yma](#)



PAMS

Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

Cam ll lansio System Gyffuriau Cost Uchel Blueteq yng Nghymru

Mae Blueteq yn system feddalwedd ar y we sy'n cael ei rhoi ar waith yng Nghymru i helpu i reoli Cyffuriau Cost Uchel (HCD), gan sicrhau eu bod yn cael eu rhagnodi yn unol â Chanllawiau Arfarnu Technoleg Iechyd a gyhoeddwyd gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ratoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Bydd y system HCD yn galluogi byrddau iechyd i fonitro'r gwaith o ragnodi meddyginiaethau cost uchel a rheoli'r cymhlethdodau cynyddol sy'n gysylltiedig â'u defnyddio.

[Darllenwch ragor yma](#)



WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Fersiynau diweddaraf o 'adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru' ac 'adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru' wedi'u cyhoeddi

Mae AWTTC yn cynhyrchu adroddiadau misol sy'n darparu crynodeb byr o rai o'r metrigau allweddol a ddarperir o fewn dangosfyrddau SPIRA ar gyfer 'datgarboneiddio anadlyddion' a 'chyfnodau rhagnodi'.

[Darllenwch ragor yma](#)



WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2024-2025: Dadansoddiad o ddata presgripsiynu hyd at Mawrth 2025

Mae adroddiad y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPI), sy'n dadansoddi data ar gyfer y chwarter sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2025, wedi'i gyhoeddi.

[Darllenwch ragor yma](#)



WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

Cyhoeddi manylebau Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol ar gyfer 2025-2026

Mae'r ddogfen atodol hon yn trafod y manylebau ar gyfer pob NPI a fydd yn weithredol ar gyfer 2025-2026. Mae hyn yn cynnwys y ffynhonnell data, basgedi cyffuriau, a thargedau neu drothwyon ar gyfer pob dangosydd.

[Darllenwch ragor yma](#)



WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

45^{fed} Gyngres Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwyn a Thocsicolegwyr Clinigol (EAPCCT)

Mynychodd aelodau staff o Uned Gwenwynau Caerdydd 45ain Gyngres Cymdeithas Ewropeaidd Canolfannau Gwenwynau a Thocsicolegwyr Clinigol (EAPCCT) yng Nglasgow. Mynychwyd y gynhadledd gan lawer o docsicolegwyr clinigol a gwyddonwyr o bob cwr o Ewrop yn ogystal ag UDA, Awstralia, Kuwait, Canada, Taiwan, Singapore a Gwlad Thai.

[Darllenwch ragor yma](#)

**WNP**
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

Mae NPIS Caerdydd yn mynychu'r 19^{eg} Gynhadledd Amddiffyn Cemegau Meddygol ym Munich

Teithiodd yr Athro James Coulson, i Munich, yr Almaen i gynrychioli rhywfaint o waith ein huned yn y 19^{eg} Gynhadledd Amddiffyn Cemegol Meddygol yn Academi Feddygol Bundeswehr. Mae'r gynhadledd yn canolbwyntio ar ymchwil i wrthweithio gwenwyno gan asiantau rhyfel cemegol.

[Darllenwch ragor yma](#)

**WNP**
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

Digwyddiad DPP Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol - Newcastle

Mynychodd aelodau staff o uned Gwenwynau Caerdydd ddigwyddiad DPP y Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol (NPIS) a gynhaliwyd gan Uned Gwenwynau Newcastle ym Mharc St James, i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu uned NPIS Newcastle. Mynychwyd y digwyddiad gan bob un o'r pedair uned NPIS yn ogystal â chydweithwyr o'r Ganolfan Gwybodaeth Gwenwynau Genedlaethol yn Nulyn, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU a Gwasanaeth Gwybodaeth Teratoleg y DU (UKTIS).

[Darllenwch ragor yma](#)

**Yellowcard**
Centre
Wales

Adrodd am sgil effeithiau meddyginiaethau a brechlynnau

Gall aelodau'r cyhoedd a chlinigwyr adrodd am sgil effeithiau a amheuir meddyginiaethau, brechlynnau a dyfeisiau meddygol trwy'r Cynllun Cerdyn Melyn.

Gall pawb helpu i wneud meddyginiaethau'n fwy diogel trwy adrodd am sgil effeithiau i'r Cynllun Cerdyn Melyn. Gall pob meddyginiaeth achosi sgil effeithiau. Efallai na fydd rhai yn hysbys eto, felly dyna pam ei bod yn bwysig i bobl adrodd i'r Cynllun Cerdyn Melyn.

[Darllenwch ragor yma](#)



Cofrestrwch i dderbyn cylchlythyrau'r dyfodol a darllenwch ein cylchlythyrau blaenorol ar wefan AWTTC.



I ddarllen newyddion diweddaraf AWTTC dilynwch: [@AWTTCcomms](#) | [@AWTTCcymraeg](#)



I roi adborth neu i ymuno â rhestr bostio AWTTC, e-bostiwch: awttc@wales.nhs.uk